PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

19 HYDREF 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: G. Davies, W.T. Evans a M. James

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr;
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion;
A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 10:10yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION

3.1. 17 AWST 2022 - 10:00YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (10:00am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.2. 17 AWST 2022 - 10:10YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (10:10am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.3. 17 AWST 2022 - 10:20YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (10:20am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.4. 17 AWST 2022 - 10:30YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (10:30am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.5. 17 AWST 2022 - 10:40YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (10:40am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.6. 17 AWST 2022 - 10:50YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (10:50am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.7. 17 AWST 2022 - 11:00YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (11:00am) gan eu bod yn gofnod cywir.

3.8. 17 AWST 2022 - 11:10YB

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Awst 2022 (11:10am) gan eu bod yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD H.A. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i H.A. i ysgol nad oedd yn ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr apêl a gyflwynwyd gan H.A am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei chadarnhau.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**